Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Cylch Meithrin Aberclwyd
# Capel Clwyd
# Stryd Clwyd
# Rhyll
# LL18 6LA

**Dyddiad yr arolygiad: Mai 2014**

**gan**

**Mr Eifion R Morgan**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2014: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 11/06/2014**

## Cyd-destun

Mae Cylch Meithrin Aberclwyd wedi`i hen sefydlu ac yn dathlu ei benblwydd yn 40 oed eleni. Mae'n leoliad cyfrwng Cymraeg ac yn cwrdd yn festri Capel Clwyd yn y Rhyl, Sir Ddinbych. Mae'r plant sy'n mynychu'r lleoliad yn bennaf o'r Rhyl a'r ardal gyfagos - ardal sy`n cael ei chydnabod fel un dan anfantais gyda lefelau uchel o ddiweithdra .

Mae'r lleoliad yn cael ei redeg gan bwyllgor gwirfoddol ac mae'n ddarparydd addysg fel aelod o Bartneriaeth Gofal Plant a Datblygiad Blynyddoedd Cynnar Sir Ddinbych. Mae hefyd yn aelod o`r Mudiad Meithrin.

Mae'r lleoliad wedi'i gofrestru gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC ) i ddarparu ar gyfer uchafswm o 26 o blant. Ar hyn o bryd mae 14 ar y gofrestr, ac o'r rhain mae 9 yn dod o ardal Dechrau'n Deg yn Rhyl. Mae pump o blant yn 3 oed ac yn cael eu hariannu.

Mae'r lleoliad ar agor am 4 diwrnod yr wythnos (dim dydd Mawrth) yn ystod tymor yr ysgol ac mae dwy sesiwn bob dydd, 9y.b. – 11.30y.b. a 11.30y.b. – 2.30y.p.

Saesneg yw'r iaith sy`n cael eu siarad yng nghartrefi bron pob un o'r plant. Nid oes un ohonynt o gefndir lleiafrifol ethnig a does neb wedi`i nodi ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r lleoliad, fodd bynnag, yn hapus i dderbyn plant beth bynnag yw eu cefndir neu allu.

Mae`r lleoliad yn cael ei staffio gan gyfanswm o dri aelod o staff a myfyriwr "Cam wrth Gam.” Mae `r Cylch yn defnyddio`r festri ar lawr cyntaf y capel. Mae grisiau yn arwain at y festri ac mae hyn yn gwneud mynediad i'r tu allan ar gyfer y plant yn anodd. Fodd bynnag, mae cyfleusterau cymunedol, fel y llyfrgell leol, siopau a'r parc lleol yn cael eu defnyddio`n dda i ymestyn profiadau`r plant.

Mae`r plant yn mynychu'r lleoliad unwaith y byddant yn 2 ½ oed ac mae`r rhan fwyaf yn trosglwyddo i Ysgol Gymraeg Dewi Sant yn y mis Medi sy`n dilyn eu pen-blwydd yn 3 oed.

Cafodd y lleoliad ei arolygu ddiwethaf gan AGGCC ym mis Chwefror 2013. Nid oedd unrhyw faterion o ddiffyg cydymffurfio yn yr adroddiad ac mae'r lleoliad wedi mynd i'r afael â`r argymhellion. Arolygodd Estyn y lleoliad ym Mai 2008 ac mae'r argymhellion wedi cael sylw.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

### Perfformiad presennol

***Prif arfarniad***

Mae perfformiad presennol y lleoliad yn dda oherwydd:

- mae`r cynllunio ar gyfer dysgu yn llwyddo i ennyn diddordeb yr holl blant;
- mae`r plant yn datblygu`r hyder i fod yn ddysgwyr annibynnol;
- y ddarpariaeth ar gyfer datblygu`r iaith Gymraeg ac ymwybyddiaeth o ddiwylliant Cymru;
- mae`r addysgu yn cael effaith dda ar y dysgu;
- y gofal, cymorth ac arweiniad mae`r plant yn eu derbyn;
- yr ethos a`r cyfartaledd o ran cyfleoedd sy`n cael eu darparu ar gyfer y plant;
- y synnwyr o ddiben sy`n amlwg;
- y gefnogaeth sy`n cael ei rhoi gan athrawes ymgynghorol yr awdurdod lleol.

Mae perfformiad cyfredol y lleoliad dim ond yn ddigonol oherwydd:

- nid yw`r cynllunio ar gyfer dysgu yn dangos sut mae gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau`r plant i`w datblygu`n systematig;
- nid oes defnydd da o`r asesu wrth gynllunio`r camau nesaf yn y dysgu ar gyfer y plant.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella`r feithrinfa yn dda oherwydd:

- mae arweinyddiaeth a rheolaeth y lleoliad yn canolbwyntio`n dda ar ddarparu`r ddarpariaeth orau posibl ar gyfer y plant;
- mae`r staff yn cyd-weithio`n dda fel tîm;
- mae`r hunanarfarnu`n nodi meysydd i`w datblygu`n glir;
- y gefnogaeth sy`n cael ei darparu gan athrawes gefnogi`r Awdurdod Lleol a Mudiad Meithrin.

## Argymhellion

Mae angen i'r lleoliad:

A1 ddatblygu`r cynllunio er mwyn dangos sut mae`r cwricwlwm yn adeiladu`n systematig ar wybodaeth, dealltwriaeth a medrau presennol y plant.

A2 mireinio`r gweithdrefnau asesu er mwyn nodi datblygiad medrau`r plant yn glir.

A3 nodi`r camau nesaf yn nysgu plant unigol a chynllunio yn unol â hyn.

### *Beth sy'n digwydd nesaf?*

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu i ddangos sut y bydd yn mynd i`r afael â`r argymhellion. Bydd yr Awdurdod Lleol yn monitro cynnydd y lleoliad.
.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | |
|---|---|

Nid oes unrhyw adroddiad ar gynnydd plant, safonau yn natblygiad eu medrau, yr iaith Gymraeg a lles. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant perthnasol adeg yr arolygiad i adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Digonol**

Mae`r ymarferwyr yn cynllunio ar y cyd ac yn ystyried diddordebau`r plant a`u profiadau blaenorol. Mae`r cynllunio o`r profiadau dysgu yn ennyn diddordeb pob plentyn yn llwyddiannus ac yn ffocysu'n dda ar annog cynnydd plant tuag at fodloni deilliannau'r Cyfnod Sylfaen. Nid yw'r cynllunio, fodd bynnag, yn dangos yn ddigonol sut mae gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau`r plant yn cael eu datblygu yn systematig ac yn gynyddol.

Mae`r cyfleoedd dysgu wedi'u cynllunio'n dda i annog plant i ffurfio perthynas ac i drin ei gilydd gyda pharch. Mae`r plant yn datblygu digon o hyder i ddod yn ddysgwyr annibynnol ac i roi cynnig ar brofiadau newydd. Mae cyfleoedd da i blant ddatblygu eu sgiliau meddwl ac i ddatblygu dealltwriaeth o'r byd a'u hamgylchedd uniongyrchol.

Mae`r cynllunio yn canolbwyntio`n dda ar ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd y plant. Mae`r plant yn gwneud defnydd o`r sgiliau hyn ar draws y cwricwlwm sy`n eu galluogi i gael mynediad at y cwricwlwm cyfan yn llwyddiannus.

Mae'r lleoliad yn gwneud darpariaeth dda ar gyfer datblygiad yr iaith Gymraeg. Cymraeg yw`r cyfrwng cyfathrebu a thrwy sefydlu patrymau iaith da, mae`r plant yn caffael meistrolaeth dda o'r iaith. Er bod y plant yn deall mwy nag y maen nhw`n siarad, mae'r ddarpariaeth yn dda a hefyd y cynllunio i ddatblygu ymwybyddiaeth y plant o draddodiadau a dathliadau o ddiwylliant Cymru.

**Addysgu: Da**

Mae gan ymarferwyr wybodaeth dda o ddatblygiad plant ac o ofynion y Cyfnod Sylfaen. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel o bob plentyn beth bynnag eu hoed neu eu gallu.

Mae`r cynllunio yn sicrhau cydbwysedd da rhwng gweithgareddau sy`n cael eu dewis gan y plentyn a`u cyfeirio gan oedolion. Mae`r staff yn gwybod pryd i ymyrryd a phryd i adael i blant weithio'n annibynnol. Mae ymarferwyr yn ymwybodol iawn o bwysigrwydd darparu cyfleoedd i blant ddysgu trwy chwarae ac ymglymiad gweithredol.

Mae ymddygiad yn cael ei reoli'n dda ac yn cael ei helpu yn sylweddol drwy gadw'r plant yn brysur drwy gymryd rhan mewn gweithgareddau diddorol. Mae iaith Gymraeg y plant yn cael ei gwella trwy iddynt gael eu trochi yn yr iaith a thrwy gael eu dysgu gan siaradwyr Cymraeg rhugl sydd eu hunain yn sgwrsio yn yr iaith. Agwedd dda a nodedig arall o'r addysgu yw'r defnydd da iawn o holi i herio plant ac i ddatblygu eu sgiliau meddwl.

Mae`r plant yn cael eu hasesu'n rheolaidd ac mae`r arsylwadau yn cael eu cofnodi yn eu llyfr cofnodion unigol – “Chwarae i ddysgu – Dysgu i chwarae”. Mae`r cofnodion asesu, fodd bynnag, yn tueddu i fod yn ddisgrifiadol ac nid ydynt yn canolbwyntio'n ddigonol ar ddatblygu sgiliau`r plant. Nid yw canlyniadau'r asesu yn cael eu defnyddio'n ddigonol wrth gynllunio gweithgareddau yn y dyfodol er mwyn bodloni anghenion y plant a`u hymestyn.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae trefniadau da ac effeithiol yn eu lle i sicrhau iechyd a lles y plant. Mae trefniadau o'r fath yn cyfrannu'n dda at ddatblygiad cyffredinol y plant ac yn cefnogi eu dysgu a'u lles. Trwy ymweliadau â'u cymuned, mae`r plant yn datblygu ymdeimlad o chwilfrydedd am y byd maen nhw`n byw ynddo. Mae eu datblygiad moesol yn cael ei gefnogi`n addas gan y gwerthoedd sy`n cael eu sefydlu yn y lleoliad, gan gynnwys gonestrwydd, tegwch a pharch. Mae`r plant yn ymwybodol iawn o'r hyn sy'n gywir ac yn anghywir ac yn ymddwyn yn unol â hynny. Mae'r holl blant yn dangos parch a dealltwriaeth o'r rheolau sylfaenol o ran ymddygiad. Mae'r lleoliad yn annog plant i gymryd rhan mewn gwaith creadigol. Mae'r plant yn hapus yng nghwmni oedolion ac yn hyderus, fel wrth sgwrsio gyda'r arolygydd .

Mae'r lleoliad yn ymwybodol iawn o wahanol alluoedd plant, er nad oes unrhyw blentyn ar hyn o bryd wedi'i nodi ag anghenion dysgu ychwanegol. Fodd bynnag, mae trefniadau yn eu lle pe bai eu hangen.

Mae`r plant yn cymryd rhan mewn ailgylchu – mae papur gwastraff yn cael ei gasglu fel mater o drefn a gwastraff llysiau yn cael ei ailgylchu.

Mae trefniadau diogelu y lleoliad yn sicrhau bod plant yn ddiogel ac yn rhydd o unrhyw ffurf o aflonyddwch. Mae`r staff wedi mynychu cyrsiau perthnasol yn ddiweddar ac yn ymwybodol iawn o sut y dylent ymateb pe bai angen. Mae polisïau a gweithdrefnau yn eu lle ac yn hysbys i rieni. Mae'r lleoliad yn ddiogel yn y modd na all unrhyw un ddod i mewn neu adael heb rybudd. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r lleoliad yn gymuned gynhwysol lle mae`r holl blant yn cael cyfle cyfartal. Mae`r lleoliad wedi`i staffio`n hael ag ymarferwyr sydd â chymwysterau a phrofiad da. Mae`r staff yn ymwybodol iawn o ofynion ac athroniaeth cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen. Mae'r lleoliad yn cynrychioli amgylchedd dysgu ysgogol. Mae ganddo adnoddau da sy`n cyfateb yn dda i anghenion y plant. Nodwedd dda yw'r ffordd y mae`r staff yn amrywio`r adnoddau sydd ar gael i'r plant, ac mae hyn yn helpu i gynnal eu diddordeb.

Mae'r lleoliad yn defnyddio ystafell fawr sydd wedi'u goleuo'n dda.  Mae digon o ardaloedd er mwyn i`r plant gael rhyddid i symud o gwmpas a bod yn weithgar.  Er nad yw'r ystafell yn caniatáu mynediad uniongyrchol i'r tu allan, mae`r ymarferwyr, drwy ymweliadau a chysylltiadau cymunedol yn goresgyn hyn gymaint â sy`n bosibl.

| Cwestiwn Allweddol 3:  Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Da |
|---|---|

**Arweinyddiaeth:  Da**

Mae`r staff yn gweithio gyda'i gilydd yn dda iawn ac mae'r ddau uwch ymarferydd yn cymryd rolau`r arweinyddiaeth.  Mae`r dysgu a`r addysgu yn cael eu rheoli'n dda ac mae polisïau a mentrau lleol yn cael eu gweithredu'n effeithiol.  Mae ymroddiad yr holl ymarferwyr yn sicrhau darpariaeth dda ar gyfer y plant.  Mae'r berthynas gyda'r plant, y rhieni a'r gofalwyr yn gadarnhaol ac yn sicrhau bod y plant yn mwynhau ac yn elwa o`r ddarpariaeth.  Mae'r lleoliad yn gweithio'n galed i gynnwys y rhieni ond cyfyngedig yw`r llwyddiant.

Mae'r lleoliad yn hunan-feirniadol ac mae'r holl staff yn gweithio gyda synnwyr o ddiben sy'n canolbwyntio ar hyrwyddo a chynnal gwelliannau.  Mae'r lleoliad yn dangos synnwyr o ddiben sydd wedi`i gynllunio i ddiwallu anghenion plant ac i roi iddynt darpariaeth o ansawdd uchel.

Mae`r plant yn cael eu rheoli'n gadarnhaol ac mae`r canlyniadau yn cael eu monitro a'u gwerthuso.  Mae system arfarnu effeithiol yn ei lle.  Mae`r polisïau a`r mentrau, gan gynnwys y rhai sy'n bodloni blaenoriaethau cenedlaethol a lleol yn cael eu gweithredu'n gyson.

**Gwella ansawdd:  Da**

Mae'r lleoliad wedi llwyddo i nodi ei gryfderau a meysydd ar gyfer datblygu a defnyddio'r wybodaeth hon i sicrhau gwelliannau.  Mae'r lleoliad yn arddangos diwylliant hunan-feirniadol a pharodrwydd i ysgogi gwelliannau.  Mae`r ymarferwyr yn agored i syniadau newydd ac yn barod i dderbyn newid.  Mae`r ymarferwyr yn rhannu syniadau ac yn sensitif i farn y plant.

**Gweithio mewn partneriaeth:  Da**

Mae`r ymarferwyr wedi cymryd camau gweithredol i gynnwys rhieni a gofalwyr ond gyda llwyddiant cyfyngedig.  Mae`r rhieni yn cael eu hysbysu'n rheolaidd am bob agwedd o waith y lleoliad ac mae`r holiaduron a thrafodaeth yn nodi eu bod yn hapus ac yn gefnogol o waith y lleoliad.  Maen nhw`n adrodd ar ba mor dda mae eu plant yn dangos cynnydd a pha mor dda mae'r plant yn ymateb i waith y lleoliad, ond ar y cyfan nid ydynt yn cymryd rhan weithredol wrth gefnogi`r lleoliad.  Mae perthynas dda sy`n gwella yn eu lle gyda'r ysgol gynradd mae`r plant yn symud iddi, ac er bod yr ysgol gryn bellter i ffwrdd, mae`r plant yn ymweld â'r ysgol tra yn y lleoliad.  Yn yr un modd, mae athrawes y dosbarth derbyn yn ymweld er mwyn cwrdd â'r plant sydd yn dechrau yn yr ysgol gynradd yn nhymor yr haf.

Mae perthynas arbennig o dda wedi`i sefydlu gydag athrawes ymgynghorol yr Awdurdod Lleol a Mudiad Meithrin.  Mae hyn wedi cael effaith dda ar ansawdd y ddarpariaeth sy`n cael ei darparu gan y lleoliad.  Mae cysylltiadau cymunedol ac ymweliadau â `r ardal yn effeithiol i gefnogi dysgu plant.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae adnoddau addas gan y lleoliad sy`n cael eu defnyddio'n effeithiol i gefnogi`r dysgu.  Mae`r gyllideb yn cael ei rheoli'n ofalus ac yn cael ei defnyddio i gefnogi`r camau sydd wedi`u cynllunio ar gyfer gwella.  Mae hon yn gymuned ddysgu sydd wedi`i hen sefydlu lle mae`r staff yn defnyddio eu syniadau yn dda ac yn rhannu eu harbenigedd proffesiynol.  Mae`r staff yn gwneud defnydd da o gyrsiau datblygiad proffesiynol ac yn rhannu syniadau.  Mae`r staff yn myfyrio ar eu harfer eu hunain ac yn cefnogi ei gilydd.  Mae mentrau o'r fath wedi cael effaith dda ar ddysgu a lles y plant.

Mae'r lleoliad yn defnyddio`i adnoddau yn dda ac ar y cyfan yn darparu gwerth da am arian.

# Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i'r holiadur i rieni**

Derbyniwyd llai na 10 ymateb.  Ni chaiff unrhyw ddata ei ddangos.

## Atodiad 2

### Yr arolygydd cofnodol

| | |
|---|---|
| Mr Eifion R Morgan | Arolygydd Cofnodol |

### Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Y Gymdeithas Gwarchod Plant Genedlaethol (NCMA)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |